| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **DYDDIAD** | **17 Chwefror 2022** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2022/23** |
| **PWRPAS** | **Argymell calendr dyddiadau ar gyfer cynnal pwyllgorau 2022/23 i'r Cyngor Llawn** |
| **AWDUR** | **Annes Sion**<br>**Arweinydd Tîm Democratiaeth** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2022/23 er eich sylwadau cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fawrth.

1.2 Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol a'r Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro a chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd er nad yw holl ddyddiadau 2022/23 yn wybyddus eto.

## 2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2022/23

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2022/23

2.2 Noder fod dyddiadau'r holl gyfarfodydd wedi llithro ychydig o gymharu â blwyddyn arferol yn sgil Etholiad Llywodraeth Leol sy'n cael ei gynnal ar 5 Mai 2022. O ganlyniad ni fydd cyfarfod Cyntaf y Cyngor tan yr 19 Mai 2022. Bydd hyn yn caniatáu i'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith drefnu a chynnal sesiwn anwytho i'r holl Aelodau cyn cyfarfod y Cyngor Llawn Blynyddol.

2.3 Yn ogystal, noder na chynhelir cyfarfod o unrhyw un o bwyllgorau'r Cyngor yn ystod mis Mai. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fabwysiadu'r dyraniad seddau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, i'r grwpiau gwleidyddol adnabod cynrychiolwyr i'r gwahanol seddau ac i'r aelodau dderbyn unrhyw hyfforddiant angenrheidiol cyn i'r pwyllgorau gael eu cynnal.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2022-23.